**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1346
Ein cyf/Our ref LW/01051/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

15 Mehefin 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Mai ynglŷn â deiseb P-06-1346 sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch, rhad ac am ddim i bobl dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hyrwyddo twf.

Rwy'n cydnabod bod y trefniadau presennol sy'n gysylltiedig â phrisiau a thocynnau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn gymhleth iawn ac yn anghyson ar draws Cymru. Er mwyn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol a hygyrch, mae fy swyddogion wedi bod yn gwneud cryn dipyn o waith cynllunio ac wedi edrych ar amryfal opsiynau ar gyfer cynnig Prisiau Tecach i bobl sy'n teithio ar fysiau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gyflwyno prisiau sengl a fydd yn cael eu capio, prisiau a fydd yn gysylltiedig â pharthau, tocynnau integredig ar gyfer bysiau a threnau, a thocynnau gwell ar gyfer pobl ifanc.

Rydym yn edrych yn ofalus ar dreialon a gynhaliwyd yn Abertawe, Casnewydd a Chaerdydd yn ystod y deuddeg mis diwethaf lle darparwyd bysiau yn rhad ac am ddim ac am brisiau gostyngol. Roedd y treialon hynny hefyd yn cynnwys cael teithio am ddim ar rwydwaith TrawsCymru dros benwythnosau. Mae'r treialon hynny wedi dangos bod pennu prisiau isel am deithio ar fysiau yn gallu annog rhagor o bobl i'w defnyddio.

Rydym yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau yn Lloegr, lle mae'r Adran Drafnidiaeth wedi darparu cyllid fel y bo modd cynnig tocynnau am bris o £2 tan ddiwedd mis Hydref 2023, beth bynnag y bo hyd y daith. Rydym wrthi hefyd yn monitro'r sefyllfa yn yr Alban lle cyflwynwyd teithio am ddim i bobl ifanc rhwng 5 a 21 oed. Cyn gynted ag y bydd data cadarn ar gael am y mentrau hynny, byddwn yn eu defnyddio wrth inni fynd ati i ystyried 'Prisiau Tecach' ar gyfer teithio ar fysiau yng Nghymru, er mwyn gwneud teithio ar fysiau yn fwy fforddiadwy ac yn fwy deniadol i bawb yn y gymuned.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn anffodus, mae’r setliad ariannu a gafwyd oddi wrth Lywodraeth y DU yn un heriol, a bu’n rhaid inni flaenoriaethu’n cyllid ar gyfer bysiau er mwyn sicrhau, o dan ein Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau, fod gwasanaethau bysiau hanfodol yn cael eu cynnal ar gyfer ein cymunedau. Cyn gynted ag y bydd y sefyllfa ariannu’n gwella, rydym yn awyddus i fwrw ymlaen â’n mentrau ar brisiau bysiau.

Byddwch yn gwybod hefyd am fwriad y llywodraeth hon i ddiwygio'r system fysiau drwy reoleiddio, fel yr amlinellir yn ein Papur Gwyn Un, *Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn*. Mae'r system bresennol yn caniatáu i weithredwyr ddarparu eu gwasanaethau ar sail elw yn hytrach nag ar sail anghenion teithwyr ac mae'n codi rhwystrau, nad oes a wnelont ddim oll â'r teithiau y mae pobl am fynd arnynt, rhwng gweithredwyr gwahanol

Bydd dod â’r system fysiau dan reolaeth gyhoeddus drwy greu rhwydwaith masnachfraint yn ein galluogi i roi pobl o flaen elw ac i wneud bysiau mor hawdd a deniadol i’w defnyddio ag y gallwn. Mae hynny'n golygu y gallwn ailgynllunio rhwydweithiau ar sail darparu'r ystod orau a fwyaf cyfleus o gysylltiadau â phosibl, yn hytrach na darparu gormod o wasanaethau ar goridorau masnachol a pheidio â darparu digon mewn ardaloedd eraill.

Mae hefyd yn golygu sicrhau bod tocynnau mor fforddiadwy a syml â phosibl, fel y bo pob bws yn rhedeg ar yr un system docynnau, a bod tocynnau pobl yn seiliedig ar y daith y byddant yn ei gwneud yn hytrach nag ar brisiau’r gweithredwr sy’n gyfrifol am y llwybr y byddant yn digwydd bod yn teithio arno.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change